**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2025**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| 2 | DATGANIADAU O GYSYLLTIAD | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad. |
| 3 | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| 4 | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| 5 | HEN YSBYTY GOGLEDD CYMRU - CYMERADWYAETH I GYFLWYNO CYTUNDEB TRYDYDD PARTI | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi sefyllfa Dyfarniad Cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer y prosiect;*<br><br>*(b) cymeradwyo'r argymhelliad gan y Grŵp Craffu Cyfalaf i fwrw ymlaen â'r cyfraniad arian cyfatebol i gefnogi Cam 1 o brosiect Hen Ysbyty Gogledd Cymru, yn unol â gweithdrefnau ariannol y Cyngor ei hun a'r Achos Busnes Cyfalaf cysylltiedig (Atodiad 2 yr adroddiad);*<br><br>*(c) awdurdodi'r broses o roi'r Grant i'r Partner Datblygu, gan gydnabod i) y gwiriadau sydd wedi'u cynnal fel rhan o'r broses Diwydrwydd Dyladwy sy'n ofynnol gan Lywodraeth y DU a ii) deall bod hyn yn amodol ar asesiad rheoli cymhorthdal boddhaol, a chwblhau holl eitemau trosglwyddo tir ac A106 sy'n weddill, a*<br><br>*(d) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried Asesiad o Effaith Uchelgais Gogledd Cymru fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| 6 | SETLIAD ARIANNOL DROS DRO LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER LLYWODRAETH LEOL 2025/26 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi effaith Setliad Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 a geir yn adran 4.1 yr* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *adroddiad a’r pwysau diweddaraf ar y gyllideb a geir yn adran 4.2 yr adroddiad, a*<br><br>*(b) derbyn yr adborth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chymeradwyo eu hargymhellion fel y nodir yn adran 4.4 yr adroddiad.* |
| **7** | DYRANIADAU BLOC CYFALAF I’W CYNNWYS YNG NGHYNLLUN CYFALAF 2025/26 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo’r egwyddorion ar gyfer cyllido cynlluniau cyfalaf fel y nodir yn yr adroddiad, a*<br><br>*(b) cefnogi'r prosiectau a ddangosir yn Atodiad 2 yr adroddiad i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2025/26, a’u hargymell yn unol â hynny i'r Cyngor llawn.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi’r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2024/25 a’r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.* |
| **9** | RHAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen waith y Cabinet.* |